# Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD IAU, 3 MAWRTH 2016**

## AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR PENODI AELODAU

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR PENODI AELODAU** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **12.00 PM, DYDD IAU, 10FED MAWRTH, 2016** (**NEU'N SYTH AR ÔL I'R CYFARFOD O'R CYNGOR DDOD I BEN, PA UN BYNNAG FYDD HWYRAF**) ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Martin S. Davies** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224059** |
| **Ffacs:** | **(01267) 224911** |
| **E-bost:** | **MSDavies@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# AELODAETH Y PWYLLGOR
# 8 AELOD

**Grŵp Plaid Cymru**
Cyng Alan Speake
Cyng. Eirwyn Williams
Cyng. Joy Williams

**Grŵp Annibynnol**
Cyng. Anthony Davies
Cyng Philip Hughes

**Grŵp Llafur**
Cyng. Sharen Davies
Cyng. Louvain Roberts

**Annibynnol heb gysylltiad**
Cyng. John Jenkins

# A G E N D A

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. YSTYRIED PENODI’R CYNGHORYDD RYAN THOMAS I GYMRYD LLE’R CYNGHORYDD LOUVAIN ROBERTS FEL AELOD O GYNGOR IECHYD CYMUNED HYWEL DDA. (BYDD TYMOR SWYDD Y CYNG. ROBERTS YN DOD I BEN AR Y 31AIN O FAWRTH 2016)
4. YSTYRIED PENODI’R CYNGHORYDD HUGH RICHARDS I GYMRYD LLE’R CYNGHORYDD IVOR JACKSON FEL AELOD O GYNGOR IECHYD CYMUNED HYWEL DDA.
5. I YSTYRIED AILBENODI'R CYNGHORWYR S.M. ALLEN A I.W. DAVIES YN YMDDIRIEDOLWYR YMDDIRIEDOLAETH ORIEL MYRDDIN GAN FOD EU CYFNOD YN Y SWYDD YN DOD I BEN YN ORFFENNAF 2016. (MAE ARWEINYDD Y GRWP ANNIBYNNOL WEDI ENWEBU'R CYNGHORWYR S.M. ALLEN A I.W. DAVIES AR GYFER EU HAIL BENODI)
6. YSTYRIED PENODI’R CYNGHORYDD R. THOMAS I GYMRYD LLE’R CYNGHORYDD P.M. JONES FEL AELOD O BWYLLGOR YSGOLORIAETH THOMAS AC ELIZABETH WILLIAMS.
7. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR YR 14EG HYDREF, 2015. 5 - 8

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Y PWYLLGOR PENODI AELODAU
# DYDD MERCHER, 14 HYDREF 2015

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd W.R.A. Davies (Yr Is-gadeirydd yn Cadeirio)

**Y Cynghorwyr:**
S.L. Davies, B.A.L. Roberts, E.G. Thomas (Yn lle P.M. Hughes) a J.S. Williams

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 1.00 – 1.10pm

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J.P. Jenkins A.D.T. Speake.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 3. AWDURDOD TÂN CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynghorydd C.P. Higgins wedi ymddiswyddo'n ddiweddar fel aelod o Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yr oedd gan y Cyngor bum cynrychiolydd arno. Gan fod y gynrychiolaeth ar yr uchod yn gytbwys yn wleidyddol, ymgynghorwyd ag Arweinydd y Grŵp Llafur ynghylch enwebu aelod i lenwi'r lle gwag, ac roedd enw'r Cynghorydd D.C. Evans wedi'i gynnig.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd D.C. Evans yn un o gynrychiolwyr y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn lle'r Cynghorydd C.P. Higgins.**

## 4. Y CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynghorydd H.A.L. Evans wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg

Grefyddol [CYSAG] yr oedd gan y Cyngor bedwar cynrychiolydd arno. Gan fod y gynrychiolaeth ar yr uchod yn gytbwys yn wleidyddol, ymgynghorwyd ag Arweinydd Grŵp Plaid Cymru ynghylch enwebu aelod i lenwi'r lle gwag, ac roedd enw'r Cynghorydd M.J.A. Lewis wedi'i gynnig.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd M.J.A. Lewis yn un o gynrychiolwyr y Cyngor ar SACRE yn lle'r Cynghorydd H.A.L. Evans.**

## 5. CYNGOR LLYFRAU CYMRU

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynghorydd A. Lenny wedi ymddiswyddo fel aelod o Gyngor Llyfrau Cymru a bod angen i'r Cyngor ystyried penodi rhywun i lenwi'r lle gwag.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd S.E. Thomas yn lle'r Cynghorydd A. Lenny ar Gyngor Llyfrau Cymru.**

## 6. BWRDD RHEOLI CYMDEITHAS TAI CANTREF

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynghorydd E. Dole wedi ymddiswyddo fel sylwedydd ar Fwrdd Rheoli Cymdeithas Tai Cantref a bod angen i'r Cyngor ystyried penodi rhywun i lenwi'r lle gwag.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd M.J.A. Lewis yn sylwedydd y Cyngor ar Fwrdd Rheoli Cymdeithas Tai Cantref yn lle'r Cynghorydd E. Dole.**

## 7. CYNGOR CYMRU I'R DEILLION - GRŴP LLYWIO RHANBARTHOL (A ELWID GYNT Y PWYLLGOR GWAITH)

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynghorydd P.E.M. Jones wedi ymddiswyddo fel aelod o Gyngor Cymru i'r Deillion - Grŵp Llywio Rhanbarthol a bod angen i'r Cyngor ystyried penodi rhywun i lenwi'r lle gwag.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd K.P. Thomas ar Gyngor Cymru i'r Deillion - Grŵp Llywio Rhanbarthol yn lle'r Cynghorydd**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

P.E.M. Jones.

8. COFNODION

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2015, gan eu bod yn gofnod cywir.**

________________________ ________________________

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**

1.

2.

1.1.

**1.2.**



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales